ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working

Y CYFNOD SYLFAEN

Cynghrair o 6 awdurdod lleol yw ERW a reolir gan gyd-bwyllgor cyfansoddiadol cyfreithiol.
Y nod yw gweithredu strategaeth a chynllun busnes rhanbarthol cytunedig a chefnogi gwelliant ysgolion.

ERW is an alliance of 6 local authorities governed by a legally constituted joint committee.
Its aim is to implement the agreed regional strategy and business plan to support school improvement.

27 Ebrill 2015

Diben y diweddariad

Darparu manylion ynghylch sut y bydd cymorth i'r Cyfnod Sylfaen yn ERW yn cael ei roi ar waith ac yn gweithio'n effeithiol fel ffrwd gwaith er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Hefyd bydd yn egluro ym mhle fydd y gwaith yn plethu â chyfrifoldebau statudol yr awdurdodau lleol.

Cyflwyniad

Mae'r Model Cenedlaethol yn gosod rhai cyfrifoldebau ar gonsortia rhanbarthol o ran y Cyfnod Sylfaen, sef:

- herio perfformiad a darpariad lleoliadau **Cyfnod Sylfaen**
  ac asesu'r angen am ddarparu hyfforddiant a chymorth datblygu ac yna eu comisiynu, eu cydgysylltu, a sicrhau eu hansawdd;
- bydd cymorth **Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar** yn cynnwys
  herio arweinwyr lleoliadau Cyfnod Sylfaen a chydlynu â phenaethiaid
  a darparwyr eraill i archwilio anghenion hyfforddiant a chomisiynu a sicrhau ansawdd ystod briodol o raglenni.

Fodd bynnag, gyda'r awdurdodau lleol y mae'r cyfrifoldebau a'r dyletswyddau mewn perthynas â'r rhan fwyaf o'r agweddau darparu. Serch hynny, fel rhanbarth rydym yn cydweithio er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a gwella ansawdd a chysondeb lle bo'n briodol.

Cyd-destun

Felly mae gan ERW dair prif thema i'r gwaith wrth inni gamu ymlaen â blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2015-2018. Y nod yw sicrhau mwy o werth am arian a gwella safonau addysgu a dysgu.

1. Dysgu Proffesiynol

1.1 Cydweithredu ynghylch **rhaglen hyfforddiant fechan a dargedir** ar draws y rhanbarth. Canolbwyntio'n benodol ar addysgeg yn ddiweddarach yn y Cyfnod Sylfaen.

1.2 Darparu hyfforddiant statudol yn rhanbarthol er mwyn sicrhau effeithlonrwydd ac ansawdd. Byddai hyn yn cynnwys:

- 1.2.1 Hyfforddiant yn yr Hwb
- 1.2.2 O wythnos 22 Mehefin ymlaen i'r holl athrawon Derbyn, ac, os oes lle iddynt, athrawon Meithrin yn ogystal (Yr un person fydd hwn yn achos nifer o ysgolion)
- 1.2.3 Hyfforddiant undydd i Benaethiaid / Arweinwyr Asesu yn Nhymor yr Hydref - gallai hyn fod yn hanner diwrnod)

1.3 **Ymgysylltu â darparwyr HAGA** i ddarparu cymorth o ran hyfforddi athrawon newydd a staff HAGA presennol.

1.4 Cefnogi **dysgu proffesiynol** staff HAGA, Ymgynghorwyr Her a staff cymorth trwy fodiwl cyffredin. Yn benodol, byddai hyn yn effeithlon gan y byddai disgwyl i ysgolion ddarparu pecynnau dysgu proffesiynol wedi'u paratoi ar gyfer staff cymorth.

1.5 Plethu'r dysgu proffesiynol angenrheidiol yn dda â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

1.6 Mae adnoddau hyfforddiant ar gael i'w defnyddio yn yr ysgol ac ar-lein.

2. Cymorth ar gyfer Ysgolion

2.1 **Cydgysylltu bwydlen gymorth a her** sy'n canolbwyntio'n benodol ar y Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn golygu darparu adnoddau i ysgolion hyfforddi eu hunain a hwyluso ymyriadau eraill fel y bo'r angen. Bydd cyfres o hyfforddiant rhanbarthol ar gael hefyd ynghyd â rhestr bwrpasol i'w defnyddio fel y bo'r angen fel rhan o gymorth a drefnir sy'n cael ei wahaniaethu yn ôl yr angen.

2.2 Yn unol â'r disgwyliadau a'r hawl a bennwyd yn Ysgol Gymorth ERW o ran **cefnogi ysgolion fel y bo'n briodol, darparu cymorth i ysgolion lle bo hwn yn faes i'w wella** (trefnwyd fel rhan o'r Ysgol Gymorth). Y nod yw rhoi bod i welliant lle bo'r angen drwy ddefnyddio arferion cyffredin.

2.3 Papur gwybodaeth i Ymgynghorwyr Her ynghylch Rhagoriaeth a Disgwyliadau yn y Cyfnod Sylfaen.

3. Trosolwg Rhanbarthol

3.1 Bod yn ymwybodol o gynlluniau a strategaethau ERW ar gyfer gwella ysgolion ac ymgysylltu â hwy lle bo'r angen, fel y gall y grŵp ymgysylltu a **sicrhau cysondeb**

3.2 **Gweithio gyda Llywodraeth Cymru** i ddatblygu mentrau er mwyn cryfhau'r seilwaith ar gyfer gwella a datblygu'r trefniadau newydd sy'n gysylltiedig â'r Fargen Newydd.

Argymhelliad: sicrhau bod y gwaith a wneir yn rhanbarthol yn unol â disgwyliad y Model Cenedlaethol ac o fewn y camau gweithredu yng Nghynllun Busnes ERW.